


cyfrifiad
2021

**Crynodeb o niferoedd
amcangyfrifedig
Cyfrifiad 2021 o'r
bobl a'r cartrefi yng
Nghymru a Lloegr**



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

Ni yw cynhyrchydd ystadegau swyddogol annibynnol mwyaf y Deyrnas Unedig (DU) ac rydyn ni'n Sefydliad Ystadegol Gwladol cydnabyddedig. Ymddiriedir ynom ni i gasglu a diogelu data. Rydyn ni'n adrodd yn uniongyrchol i Senedd y Deyrnas Unedig, ond nid ydyn ni'n gweithio i unrhyw bleidiau gwleidyddol. SYG sy'n cynllunio ac yn cynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr.

Beth yw'r cyfrifiad?

Caiff y cyfrifiad ei gynnal bob 10 mlynedd. Mae'n rhoi darlun i ni o'r holl bobl a chartrefi yng Nghymru a Lloegr ar Ddiwrnod y Cyfrifiad. Nid oes unrhyw beth arall yn rhoi cymaint o fanylion amdanon ni a'r gymdeithas rydyn ni'n byw ynddi.

Mae gwybodaeth o'r cyfrifiad yn helpu cyrff cyhoeddus i benderfynu sut i gynllunio ac ariannu gwasanaethau yn eich ardal chi. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau fel cynghorau, elusennau, a busnesau, yn ogystal ag unigolion ac ymchwilwyr. Mae hyn yn golygu y gall y wybodaeth o'r cyfrifiad helpu i lywio penderfyniadau lleol a chenedlaethol ynghylch addysg, tai, trafnidiaeth gyhoeddus, llyfrgelloedd, gofal iechyd, monitro cydraddoldeb, cynigion cyllido a llawer mwy.

Yn 2021, roedd Diwrnod y Cyfrifiad ddydd Sul 21 Mawrth 2021.

Canlyniadau Cyfrifiad 2021

Byddwn ni'n cyhoeddi'r canlyniadau o Gyfrifiad 2021 fesul cam ar wefan SYG. Ar bob cam, byddwn ni'n cyhoeddi sylwadau neu waith dadansoddi ochr yn ochr â'r data er mwyn eu cefnogi a'u hegluro.

Rydyn ni wedi cyhoeddi'r canlyniadau cyntaf am boblogaeth Cymru a Lloegr o Gyfrifiad 2021. Mae'r ddogfen yn rhoi crynodeb o niferoedd amcangyfrifedig y bobl a'r cartrefi yng Nghymru a Lloegr ac mae'n rhoi gwybodaeth am yr hyn sydd wedi cael ei ryddhau.

Mae canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 yn cynnwys pum set data sydd ag amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi ar gyfer Cymru a Lloegr, wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf, ar lefel awdurdod lleol. Y rhain yw:

- y boblogaeth breswyl arferol yn ôl rhyw
- y boblogaeth breswyl arferol yn ôl grŵp oedran 5 mlynedd

- y boblogaeth breswyl arferol yn ôl rhyw a grŵp oedran 5 mlynedd
- dwysedd y boblogaeth breswyl arferol
- nifer y cartrefi

I esbonio'r data, rydyn ni wedi cyhoeddi dau fwletin ystadegol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae un yn canolbwyntio ar yr amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi wedi'u talgrynnu ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r ail yn canolbwyntio ar yr amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi wedi'u talgrynnu ar gyfer Cymru. Mae'r bwletinau hyn yn rhoi gwybodaeth am y canlynol:

- maint y boblogaeth a newidiadau
- oedran a rhyw y boblogaeth
- beth oedd dwysedd y boblogaeth mewn ardaloedd
- faint o gartrefi oedd yn 2021

I ategu'r data, rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi adroddiad am ansawdd a dulliau, gan gynnwys y prosesau rydyn ni wedi'u defnyddio i sicrhau ansawdd y data. Mae'r deunydd ategol hefyd yn cynnwys sylwadau am gynnal Cyfrifiad 2021 yn ystod cyfnod o newid.

Canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 am boblogaeth Cymru a Lloegr

Rydyn ni wedi amcangyfrif y niferoedd gan ddefnyddio'r wybodaeth y gwnaeth pobl ei rhoi wrth gwblhau eu holiadur ar gyfer Cyfrifiad 2021.

Rydyn ni wedi talgrynnu pob rhif i'r 100 agosaf.

Mae hyn yn cynnwys nifer amcangyfrifedig y dynion yng Nghymru a Lloegr a nifer amcangyfrifedig y menywod yng Nghymru a Lloegr.

Mae hefyd yn cynnwys nifer amcangyfrifedig y bobl yng Nghymru a Lloegr ar gyfer grwpiau oedran pum mlynedd. Er enghraifft, 10 i 14, 15 i 19, 20 i 24, ac yn y blaen, hyd at bobl sy'n 90 oed a throsodd.

Rhain yw'r prif bwyntiau a ddaeth o'r wybodaeth am nifer amcangyfrifedig y bobl a'r cartrefi yng Nghymru a Lloegr.

Niferoedd y boblogaeth yng Nghymru a Lloegr ar 21 Mawrth 2021

Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, maint y boblogaeth breswyl arferol yng Nghymru a Lloegr oedd **59,597,300**.

Poblogaeth Cymru oedd **3,107,500**.

Poblogaeth Lloegr oedd **56,489,800**.

Dyma'r boblogaeth fwyaf a gofnodwyd erioed.

Poblogaeth sy'n tyfu yng Nghymru a Lloegr

Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad 2021, roedd poblogaeth Cymru a Lloegr wedi cynyddu mwy na **3.5 miliwn** ers 2011. Mae hyn yn gynydd o **6.3%**.

Yn 2011, poblogaeth Cymru a Lloegr oedd 56,075,912.

Cynyddodd y boblogaeth ym mhob un o'r naw rhanbarth yn Lloegr.

Cynyddodd y boblogaeth yng Nghymru hefyd.

Y twf mwyaf yn y boblogaeth

Y rhanbarth lle cynyddodd y boblogaeth fwyaf oedd Dwyrain Lloegr, sef cynnydd o **8.3%** o 2011.

Mae hyn yn gynydd o oddeutu **488,000** o bobl.

Nifer y dynion a'r menywod yng Nghymru a Lloegr ar 21 Mawrth 2021

Roedd **30,420,100** o fenywod yng Nghymru a Lloegr, sef **51.0%** o'r boblogaeth gyffredinol.

Roedd **29,177,200** o ddynion yng Nghymru a Lloegr, sef **49.0%** o'r boblogaeth gyffredinol.

Mae hyn yn debyg i 2011, pan oedd 50.8% o'r boblogaeth yn fenywod a 49.2% yn ddynion.

Cynyddodd nifer y bobl hŷn

Roedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn y grwpiau oedran hŷn.

Canran y bobl yn y boblogaeth a oedd yn 65 oed a throsodd ar Ddiwrnod y Cyfrifiad oedd **18.6%**. Yn 2011, roedd 16.4%.

Nifer y cartrefi yng Nghymru a Lloegr ar 21 Mawrth 2021

Roedd **24,782,800** o gartrefi yng Nghymru a Lloegr ar Ddiwrnod y Cyfrifiad. Roedd hyn yn gynydd o fwy nag **1.4 miliwn (6.1%)** o 2011 pan oedd 23,366,044 o gartrefi.

Ble y galla i ddod o hyd i'r data?

Rydyn ni wedi cyhoeddi'r setiau data, bwletinâu ystadegol, adroddiadau a gwybodaeth ategol yn hwb y cyfrifiad yn **cy.ons.gov.uk/census**

Ble y galla i gael deunyddiau a gwybodaeth hyrwyddo mewn fformatau hygyrch?

Os oes angen deunyddiau hyrwyddo arnoch chi i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r datganiad cyntaf neu wybodaeth mewn fformatau hygyrch, gallwch ddod o hyd i'r rhain yn **www.cyfrifiad.gov.uk**

Beth sy'n digwydd nesaf

Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi holl brif ddata eraill Cyfrifiad 2021 o fewn dwy flynedd i'r cyfrifiad.

Byddwn ni'n cyhoeddi data ar bynciau yn cynnwys:

- demograffeg a mudo
- grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd
- iechyd, anabledd a gofal di-dâl
- tai
- y farchnad lafur a theithio i'r gwaith
- cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd
- addysg
- cyn-filwyr lluoedd arfog y DU

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau datganiadau ar wefan SYG yn **cy.ons.gov.uk/census**

Diogelwch data

Ni all neb eich adnabod o'r ystadegau rydyn ni'n yn eu cyhoeddi.

Gallwch fod yn hyderus:

- ein bod yn ymdrin â'ch gwybodaeth mewn ffordd ddiogel, yn unol â safonau llywodraeth y Deyrnas Unedig
- pan gyhoeddwn ni ystadegau'r cyfrifiad, maen nhw'n yn gwbl ddiennw ac ni allwch gael eich adnabod o'r wybodaeth ynddyn nhw
- ni all eich gwybodaeth gael ei defnyddio gan y llywodraeth i effeithio ar hawliadau budd-daliadau, cais preswyllo, statws mewnfudo na threthi, ac ni chaiff ei defnyddio i wneud hyn
- caiff cofnodion y cyfrifiad eu cadw'n ddiogel am 100 mlynedd